

Fframwaith Rhifedd

Llinyn	Elfen	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5	
Datblygu hyfedredd mathemategol	Dealltwriaeth gysyniadol	Rwy'n gallu gwneud cysylltiadau fel y gellir trosglwyddo cysyniadau mathemategol sylfaenol yn ystod gweithgareddau chwarae ac ystafell ddosbarth.	Rwy'n gallu gwneud cysylltiadau fel y gellir trosglwyddo cysyniadau mathemategol yn ystod gweithgareddau chwarae ac ystafell ddosbarth.	Rwy'n gallu gwneud cysylltiadau fel y gellir adeiladu ar gysyniadau mathemategol a'u dyfnhau.	Rwy'n gallu gwneud cysylltiadau fel y gellir adeiladu ar gysyniadau mathemategol a'u dyfnhau.	Rwy'n gallu gwneud cysylltiadau fel y gellir adeiladu ar gysyniadau mathemategol a'u dyfnhau.	
				Rwy'n gallu defnyddio fy nealltwriaeth o strwythurau sylfaenol mathemateg a'u cymhwyso mewn cyd-destunau gwahanol.	Rwy'n gallu defnyddio fy nealltwriaeth o strwythurau sylfaenol mathemateg a'u cymhwyso mewn cyd-destunau gwahanol.	Rwy'n gallu defnyddio fy nealltwriaeth o strwythurau sylfaenol mathemateg a'u cymhwyso mewn cyd-destunau gwahanol.	
				Rwy'n gallu esbonio a mynegi cysyniadau, a dod o hyd i enghreifftiau (neu achosion nad ydyn nhw'n enghreifftiau).	Rwy'n gallu esbonio a mynegi cysyniadau, a dod o hyd i enghreifftiau (neu achosion nad ydyn nhw'n enghreifftiau).	Rwy'n gallu esbonio a mynegi cysyniadau, a dod o hyd i enghreifftiau (neu achosion nad ydyn nhw'n enghreifftiau).	
		Rwy'n gallu deall a defnyddio cysyniadau mathemategol sylfaenol mewn ffyrdd gwahanol.	Rwy'n gallu cynrychioli cysyniad mewn ffyrdd gwahanol, gan lifo rhwng cynrychioliadau gwahanol gan gynnwys rhai llafar, diriaethol, gweledol, digidol a haniaethol.	Rwy'n gallu cynrychioli cysyniad mewn ffyrdd gwahanol, gan lifo rhwng cynrychioliadau gwahanol gan gynnwys rhai llafar, diriaethol, gweledol, digidol a haniaethol.	Rwy'n gallu cynrychioli cysyniad mewn ffyrdd gwahanol, gan lifo rhwng cynrychioliadau gwahanol gan gynnwys rhai llafar, diriaethol, gweledol, digidol a haniaethol.	Rwy'n gallu cynrychioli cysyniad mewn ffyrdd gwahanol, gan lifo rhwng cynrychioliadau gwahanol gan gynnwys rhai llafar, diriaethol, gweledol, digidol a haniaethol.	Rwy'n gallu cynrychioli cysyniad mewn ffyrdd gwahanol, gan lifo rhwng cynrychioliadau gwahanol gan gynnwys rhai llafar, diriaethol, gweledol, digidol a haniaethol.
		Rwy'n gallu archwilio atebion o fewn cyd-destun y broblem ac rwy'n dechrau ystyried a yw atebion yn synhwyrol.	Rwy'n gallu dehongli atebion o fewn cyd-destun y broblem ac ystyried a yw atebion yn synhwyrol.	Rwy'n gallu dehongli atebion o fewn cyd-destun y broblem ac ystyried a yw atebion, gan gynnwys dangosyddion cyfrifiannell, analog a digidol, yn synhwyrol.	Rwy'n gallu dehongli atebion o fewn cyd-destun y broblem ac ystyried a yw atebion, gan gynnwys dangosyddion cyfrifiannell, analog a digidol, yn synhwyrol.	Rwy'n gallu dehongli atebion o fewn cyd-destun y broblem ac ystyried a yw atebion, gan gynnwys dangosyddion cyfrifiannell, analog a digidol, yn synhwyrol.	
	Rhesymu rhesymegol	Rwy'n gallu defnyddio iaith bob dydd ac iaith fathemategol i siarad am fy syniadau a'm dewisiadau fy hun.	Rwy'n gallu ddefnyddio iaith bob dydd ac iaith fathemategol i siarad am ac esbonio fy syniadau a'm dewisiadau fy hun.	Rwy'n gallu llunio a datblygu dadl fathemategol.	Rwy'n gallu llunio a datblygu dadl fathemategol.	Rwy'n gallu llunio a datblygu dadl fathemategol.	
				Rwy'n gallu cyfiawnhau fy ngweithdrefnau a'm rhagfynegiadau.	Rwy'n gallu cyfiawnhau fy ngweithdrefnau, fy rhagfynegiadau a'm dyfaliadau.	Rwy'n gallu cyfiawnhau fy ngweithdrefnau, fy rhagfynegiadau a'm dyfaliadau.	
			Rwy'n gallu dilysu canlyniadau a datrysiadau.	Rwy'n gallu dilysu canlyniadau a datrysiadau.	Rwy'n gallu dilysu a phrofi canlyniadau a datrysiadau.	Rwy'n gallu dilysu a phrofi canlyniadau a datrysiadau.	
				Rwy'n gallu esbonio canlyniadau a gweithdrefnau yn fanwl gan ddefnyddio iaith fathemategol briodol.	Rwy'n gallu esbonio canlyniadau a gweithdrefnau yn fanwl gan ddefnyddio iaith fathemategol briodol.	Rwy'n gallu esbonio canlyniadau a gweithdrefnau yn fanwl gan ddefnyddio iaith fathemategol briodol.	
	Rhuglder	Rwy'n dechrau cymhwyso ffeithiau a thechnegau perthnasol.	Rwy'n gallu nodi ffeithiau a thechnegau perthnasol er mwyn cymhwyso dull effeithlon.	Rwy'n gallu defnyddio ffeithiau a thechnegau cadarn, cofiadwy a defnyddiadwy er mwyn cymhwyso'r dulliau mwyaf effeithlon.	Rwy'n gallu defnyddio ffeithiau a thechnegau cadarn, cofiadwy a defnyddiadwy er mwyn cymhwyso'r dulliau mwyaf effeithlon.	Rwy'n gallu defnyddio ffeithiau a thechnegau cadarn, cofiadwy a defnyddiadwy er mwyn cymhwyso'r dulliau mwyaf effeithlon.	
			Rwy'n gallu defnyddio strategaethau gwirio i benderfynu a yw atebion yn rhesymol.	Rwy'n gallu dewis a chymhwyso strategaethau gwirio priodol.	Rwy'n gallu dewis a chymhwyso strategaethau gwirio priodol.	Rwy'n gallu dewis a chymhwyso strategaethau gwirio priodol.	
				Rwy'n gallu defnyddio cyfrifiannell yn effeithiol ac yn effeithlon i gwblhau cyfrifiadau.	Rwy'n gallu defnyddio cyfrifiannell wyddonol yn effeithiol ac yn effeithlon i gwblhau cyfrifiadau gan ddefnyddio'r amrywiaeth o fysellau swyddogaeth sydd ar gael.	Rwy'n gallu defnyddio cyfrifiannell wyddonol yn effeithiol ac yn effeithlon i gwblhau cyfrifiadau gan ddefnyddio'r amrywiaeth o fysellau swyddogaeth sydd ar gael.	

Fframwaith Rhifedd

Llinyn	Elfen	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5	
Datblygu hyfedredd mathemategol	Cymhwysedd strategol	Rwy'n gallu dewis y cyfarpar a'r adnoddau priodol i'm cynorthwyo.	Rwy'n gallu nodi'r wybodaeth sy'n ofynnol, a dewis cyfarpar ac adnoddau priodol.	Rwy'n gallu adnabod, modelu a chymhwyso'r strwythurau a syniadau mathemategol wrth wraidd problemau, er mwyn eu fformiwleiddio a'u datrys.	Rwy'n gallu adnabod, modelu a chymhwyso'r strwythurau a syniadau mathemategol wrth wraidd problemau, er mwyn eu fformiwleiddio a'u datrys.	Rwy'n gallu adnabod, modelu a chymhwyso'r strwythurau a syniadau mathemategol wrth wraidd problemau, er mwyn eu fformiwleiddio a'u datrys.	
		Rwy'n gallu awgrymu beth o bosib y byddaf angen ei wneud er mwyn cwblhau'r dasg neu ddod o hyd i ddatrysiad.	Rwy'n gallu nodi camau er mwyn cwblhau'r dasg neu ddod o hyd i ddatrysiad.	Rwy'n gallu nodi, mesur neu gasglu'r wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn cwblhau'r dasg.	Rwy'n gallu nodi, mesur neu gasglu'r wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn cwblhau'r dasg.	Rwy'n gallu nodi, mesur neu gasglu'r wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn cwblhau'r dasg.	
				Rwy'n gallu nodi pa wybodaeth bellach allai fod yn ofynnol a dewis pa wybodaeth sydd fwyaf priodol.	Rwy'n gallu nodi pa wybodaeth bellach allai fod yn ofynnol a dewis pa wybodaeth sydd fwyaf priodol.	Rwy'n gallu nodi pa wybodaeth bellach allai fod yn ofynnol a dewis pa wybodaeth sydd fwyaf priodol.	
		Rwy'n gallu archwilio mathemateg a thechnegau priodol i'w defnyddio.	Rwy'n gallu dewis mathemateg a thechnegau priodol i'w defnyddio.	Rwy'n gallu dewis, treialu a gwerthuso amrywiaeth o d dulliau posibl a rhannu problemau yn gyfres o dasgau.	Rwy'n gallu dewis, treialu a gwerthuso amrywiaeth o d dulliau posibl a rhannu problemau cymhleth yn gyfres o dasgau.	Rwy'n gallu dewis, treialu a gwerthuso amrywiaeth o d dulliau posibl a rhannu problemau cymhleth yn gyfres o dasgau.	
				Rwy'n gallu blaenoriaethu a threfnu'r camau perthnasol sydd eu hangen i gwblhau'r dasg neu ddod o hyd i ddatrysiad.	Rwy'n gallu blaenoriaethu a threfnu'r camau perthnasol sydd eu hangen i gwblhau'r dasg neu ddod o hyd i ddatrysiad.	Rwy'n gallu blaenoriaethu a threfnu'r camau perthnasol sydd eu hangen i gwblhau'r dasg neu ddod o hyd i ddatrysiad.	
				Rwy'n gallu dewis strategaeth briodol ymenyddol neu un ysgrifenedig ac rwy'n gwybod pryd mae'n briodol defnyddio cyfrifiannell.	Rwy'n gallu dewis strategaeth briodol ymenyddol neu un ysgrifenedig ac rwy'n gwybod pryd mae'n briodol defnyddio cyfrifiannell.	Rwy'n gallu dewis strategaeth briodol ymenyddol neu un ysgrifenedig ac rwy'n gwybod pryd mae'n briodol defnyddio cyfrifiannell.	
	Cyfathrebu â symbolau				Rwy'n gallu cyfleu fy atebion gan ddefnyddio ffurf fathemategol gywir.	Rwy'n gallu cyfleu fy atebion gan ddefnyddio ffurf fathemategol gywir.	Rwy'n gallu cyfleu fy atebion gan ddefnyddio ffurf fathemategol gywir.
				Rwy'n gallu defnyddio nodiant, symbolau ac unedau mesur priodol.	Rwy'n gallu defnyddio nodiant, symbolau ac unedau mesur priodol.	Rwy'n gallu defnyddio nodiant, symbolau ac unedau mesur priodol, gan gynnwys mesurau cyfansawdd.	Rwy'n gallu defnyddio nodiant, symbolau ac unedau mesur priodol, gan gynnwys mesurau cyfansawdd.
		Rwy'n gallu archwilio dulliau anffurfiol a phersonol o gofnodi, gan symud tuag at defnyddio symbolau.	Rwy'n gallu llunio a mireinio dulliau anffurfiol a phersonol o gofnodi, gan symud i ddefnyddio geiriau a symbolau mewn brawddegau rhif.	Rwy'n gallu mireinio dulliau o gofnodi cyfrifiadau.	Rwy'n gallu mireinio dulliau o gofnodi cyfrifiadau.	Rwy'n gallu mireinio dulliau o gofnodi cyfrifiadau.	

Fframwaith Rhifedd

Llinyn	Elfen	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Mae deall y system rif yn ein helpu i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau	Y system rif	Rwy'n gallu cyfrif yn ddibynadwy, ymlaen ac yn ôl, y tu hwnt i 10.	Rwy'n gallu darllen, ysgrifennu a dehongli rhifau gan ddefnyddio ffigurau a geiriau hyd at o leiaf 1000.	Rwy'n gallu darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 1 filiwn a rhifau hyd at 3 lle degol.	Rwy'n gallu ddarllen ac ysgrifennu rhifau o unrhyw faint.	Rwy'n gallu adnabod a diffinio cyfyngiadau ar gywirdeb mesuriadau, e.e. <i>ffiniau uchaf ac isaf</i> .
		Rwy'n gallu sylwi ar rifau o 0 i'r tu hwnt i 10, eu darllen a'u hysgrifennu, a chysylltu rhif â'i faint perthnasol.		Rwy'n gallu defnyddio'r termau sgwâr ac ail isradd.	Rwy'n gallu defnyddio'r termau ciwb, trydydd isradd a chilydd.	
		Rwy'n gallu cymharu a threfnu rhifau y tu hwnt i 10.	Rwy'n gallu cymharu, talgrynnu ac amcangyfrif gyda rhifau hyd at 100.	Rwy'n gallu amcangyfrif drwy dalgrynnu i'r 10, 100, 1000 neu'r rhif cyfan agosaf.	Rwy'n gallu dangos ymwybyddiaeth o'r angen am ffurf safonol a'i chynrychioliad ar gyfrifiannell.	
		Rwy'n gallu dangos dealltwriaeth o gyfatebiaeth un i un drwy gyfateb paru o wrthrychau neu luniau.	Rwy'n gallu cyfrif mewn gwahanol gamau o faint unffurf, ac adnabod odrifau ac eilrifau.		Rwy'n gallu defnyddio a dehongli rhifau mewn ffurf safonol mewn cyfrifiadau.	
		Rwy'n gallu defnyddio fy synnwyr gweledol o rif er mwyn amcangyfrif a chymharu.	Rwy'n gallu gwirio swm tynnu drwy ddefnyddio swm adio.		Rwy'n gallu talgrynnu er mwyn amcangyfrif a gwirio atebion.	
		Rwy'n gallu archwilio amcangyfrifon drwy gyfrif neu fesur.	Rwy'n gallu gwirio swm haneru drwy ddefnyddio swm dyblu.		Rwy'n gallu cyflwyno atebion i nifer penodol o leoedd degol neu ffigurau ystyrlon.	
	Perthnasoedd yn y system rif		Rwy'n gallu defnyddio haneri a chwarteri.	Rwy'n gallu ddefnyddio dealltwriaeth o gywerthoedd ffracsiynau, degolion a chanrannau syml, e.e. <i>dod o hyd i 25% o 60cm a gwybod bod hyn yn cyfateb i 1/4 o 60cm</i> .	Rwy'n gallu defnyddio cywerth ffracsiynau, degolion a chanrannau i ddewis yr un mwyaf priodol ar gyfer cyfrifiad.	
			Rwy'n gallu haneru rhifau 2-ddigid yng nghyd-destun rhif, arian a mesuriadau.	Rwy'n gallu symleiddio cyfrifiad drwy ddefnyddio ffracsiynau ar eu ffurf symlaf.	Rwy'n gallu adnabod bod rhai ffracsiynau yn ddegolion cylchol, e.e. <i>1/3 yw 0.333</i> .	
			Rwy'n gallu dod o hyd i feintiau ffracsiynol sy'n gysylltiedig â ffeithiau lluosu hysbys, e.e. <i>1/3 o 18, 1/5 o 15</i> .	Rwy'n gallu defnyddio a dehongli cynrychioliadau gwahanol o ffracsiynau, e.e. <i>rhifau cymysg a ffracsiynau pendrwm</i> .	Rwy'n gallu defnyddio pwerau a deall pwysigrwydd pwerau 10.	
				Rwy'n gallu defnyddio cywerth ffracsiynau, degolion a chanrannau er mwyn cymharu cyfrannau.		

Fframwaith Rhifedd

Llinyn	Efen	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Mae deall y system rif yn ein helpu i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau	Cyfrifiad	Rwy'n gallu deall a defnyddio'r cysyniad o 'un arall' yn fy chwarae.	Rwy'n gallu dod o hyd i wahaniaethau o fewn 100 o leiaf.	Rwy'n gallu defnyddio strategaethau ymenyddol i gofio tablau llusosi hyd at 10 x 10 a'u defnyddio i ddatrys problemau rhannu.	Rwy'n gallu defnyddio'r pedwar gweithrediad a'r cysylltiadau rhyngddyn nhw, e.e. <i>cymhwyso swm rhannu fel gwrthdro i swm llusosi</i> .	Rwy'n gallu defnyddio llusosyddion fel dull effeithlon wrth weithio gyda chanrannau, e.e. <i>llusosi ag 1.2 i gynyddu swm 20%</i> .
		Rwy'n gallu deall a defnyddio'r cysyniad o 'un yn llai' yn fy chwarae.	Rwy'n gallu defnyddio strategaethau ymenyddol i adio a thynnu rhifau 2-ddigid o leiaf.	Rwy'n gallu llusosi rhifau a degolion â lluosrif o 10, e.e. <i>15 x 30, 1.4cm x 20</i> .	Rwy'n gallu defnyddio dulliau ysgrifenedig effeithlon i adio a thynnu rhifau a degolion o unrhyw faint, gan gynnwys cymysgedd o rifau mawr a bach â niferoedd gwahanol o leoedd degol.	Rwy'n gallu defnyddio a deall y syniad o ganran wrthdro i ddarganfod maint gwreiddiol.
		Rwy'n gallu cyfuno dau grŵp o wrthrychau i ddod o hyd i 'faint i gyd?'.	Rwy'n gallu defnyddio rhaniadau i ddyblu a haneru rhifau 2-ddigid.	Rwy'n gallu haneru rhifau 3-digid yng nghyd-destun rhif, arian a mesuriadau.	Rwy'n gallu defnyddio strategaethau priodol ar gyfer llusosi a rhannu, gan gynnwys cymhwyso ffeithiau hysbys i ddeillio eraill, e.e. <i>defnyddio 7 x 6 i ddeillio 0.7 x 6</i> .	
		Rwy'n gallu tynnu gwrthrychau i ddarganfod 'faint sydd ar ôl?'.	Rwy'n gallu defnyddio strategaethau ymenyddol i gofio ffeithiau rhif o fewn 20.	Rwy'n gallu cyfrifo canran, ffracsiwn a degolyn o unrhyw faint gyda chyfrifiannell lle y bo'n briodol.	Rwy'n gallu defnyddio dulliau effeithlon i luosi a rhannu rhifau cyfan a degolion, gan gynnwys degolion megis 0.6 neu 0.06.	
		Rwy'n gallu dod o hyd i ffeithiau rhif a'u defnyddio i greu rhif (hyd at 10) mewn ffordd gwahanol.	Rwy'n gallu adalw tablau llusosi 2, 3, 4, 5 a 10 a'u defnyddio i ddatrys problemau llusosi a rhannu.	Rwy'n gallu defnyddio cymhareb a chyfran i gyfrifo meintiau.	Rwy'n gallu defnyddio trefn gweithrediadau gan gynnwys cromfachau a phwerau.	
			Rwy'n gallu llusosi rhifau â 10.	Rwy'n gallu cyfrifo meintiau canran ar sail 10%, e.e. <i>20%, 5%, 15%</i> .	Rwy'n gallu cyfrifo cynnydd neu ostyngiad canrannol.	
			Rwy'n gallu gwirio swm llusosi drwy ddefnyddio adio ailadroddol.	Rwy'n gallu adio a thynnu rhifau gan ddefnyddio rhifau cyfan a degolion.	Rwy'n gallu mynegi un maint fel canran maint arall.	
				Rwy'n gallu llusosi rhifau 2- a 3-digid â rhif 2-ddigid.	Rwy'n gallu cyfrifo canrannau meintiau gan ddefnyddio dulliau heb gyfrifiannell lle y bo'n briodol.	
			Rwy'n gallu rhannu rhifau 3-digid â rhif 2-ddigid.	Rwy'n gallu defnyddio cymarebau a chyfrannau gan gynnwys graddfeydd map.		
			Rwy'n gallu defnyddio amrywiaeth o strategaethau i wirio cyfrifiadau gan gynnwys defnyddio gweithrediadau gwrthdro, cyfrifiadau cywerth a rheolau rhanadwyedd.			

Fframwaith Rhifedd

Llinyn	Elfen	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Mae deall y system rif yn ein helpu i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau	Llythrennedd ariannol	Rwy'n gallu cyfnewid arian am eitemau a defnyddio iaith arian.	Rwy'n gallu defnyddio cyfuniadau gwahanol o arian i dalu am eitemau hyd at o leiaf £2 a chyfrifo'r newid.	Rwy'n gallu adio a thynnu cyfansymiau llai na £100 gan ddefnyddio nodiant cywir, e.e. £28.18 + £33.45.	Rwy'n gallu cyfrifo gan ddefnyddio arian tramor a chyfraddau cyfnewid.	Rwy'n gallu deall a dangos y broses go iawn o gyfnewid arian tramor.
		Rwy'n gallu dangos ymwybyddiaeth o ddiben arian drwy chwarae rôl ac mewn sefyllfaoedd go iawn.	Rwy'n gallu trefnu a chymharu eitemau hyd at £10.	Rwy'n gallu rheoli arian, cymharu costau siopau gwahanol a phenderfynu beth y gellir ei brynu o fewn cyllideb benodol.	Rwy'n gallu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth yn ymwneud â gostyngiadau a chynigion arbennig.	
				Rwy'n gallu cymharu prisiau a deall pa un yw'r gwerth gorau am arian.		
				Rwy'n gallu defnyddio elw a cholled mewn cyfrifiadau prynu a gwerthu.	Rwy'n gallu cwblhau cyfrifiadau sy'n ymwneud â TAW, cynilo a benthyca.	Rwy'n gallu deall a chyfrifo treth incwm a deall goblygiadau trethiant.
				Rwy'n gallu sylweddoli bod cyllidebu yn bwysig.	Rwy'n gallu gwerthfawrogi egwyddorion sylfaenol cyllidebu, cynilo (gan gynnwys deall adlog) a benthyca.	
				Rwy'n gallu deall manteision ac anfanteision defnyddio cyfrifon banc.	Rwy'n gallu deall manteision ac anfanteision defnyddio cyfrifon banc, gan gynnwys cardiau banc.	
				Rwy'n gallu cynllunio ac olrhain arian a chynilion drwy gadw cofnodion cywir.	Rwy'n gallu deall y risgiau sy'n gysylltiedig â gwahanol ffyrdd o gynilo a buddsoddi. Rwy'n gallu defnyddio a deall dulliau effiethlon o gyfrifo adlog.	
				Rwy'n gallu disgrifio pam mae yswiriant yn bwysig a deall effaith bod heb yswiriant.		

Fframwaith Rhifedd

Llinyn	Efen	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Mae dysgu am geometreg yn ein helpu i ddeall siapiau, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintio yn y byd go iawn	Mesur	Rwy'n gallu defnyddio unedau mesur ansafonol i drafod fy ymdeimlad o faint.	Rwy'n gallu defnyddio unedau ansafonol i fesur.	Rwy'n gallu darllen a dehongli graddfeydd neu raniadau ar amrywiaeth o offerynnau mesur.	Rwy'n gallu cynrychioli a defnyddio mesurau cyfansawdd, gan ddefnyddio unedau safonol.	Rwy'n gallu deall a defnyddio amrywiaeth o fesurau cyfansawdd.
		Rwy'n gallu defnyddio cymariaethau uniongyrchol â: <ul style="list-style-type: none"> • hyd, uchder a phellter, e.e. <i>hirach/byrrach na</i> • pwysau/màs, e.e. <i>trymach/ysgafnach na</i> • capasiti, e.e. <i>yn dal mwy/llai na</i>. 	Rwy'n gallu datblygu i ddefnyddio unedau mesur safonol: <ul style="list-style-type: none"> • hyd: Rwy'n gallu mesur ar bren mesur i'r 0.5cm agosaf • pwysau/màs: Rwy'n gallu defnyddio pwysau 5g, 10g a 100g i fesur a chymharu màs gwrthrychau • capasiti: Rwy'n gallu darllen graddfa i'r 100ml agosaf. 	Rwy'n gallu cofnodi mesuriadau mewn ffyrdd gwahanol, e.e. <i>1.3kg = 1kg 300g, 4.2cm = 4cm 2mm</i> .	Rwy'n gallu darllen a dehongli graddfeydd ar amrywiaeth o offerynnau mesur.	
				Rwy'n gallu trosi unedau metrig o hyd i unedau llai, e.e. <i>cm i mm, m i cm, km i m</i> .	Rwy'n gallu dangos dealltwriaeth o'r berthynas rhwng fformiwla sy'n cynrychioli mesuriad a'r unedau a ddefnyddir.	
				Rwy'n gallu defnyddio iaith unedau imperial a ddefnyddir bob dydd, e.e. <i>milliroedd, peintiau</i> .	Rwy'n gallu defnyddio'r unedau mesur cyffredin, trosi rhwng unedau cysylltiedig y system fetrig a chwblhau cyfrifiadau.	
					Rwy'n gallu defnyddio cywerthoedd metrig bras o unedau imperial a ddefnyddir bob dydd.	
		Rwy'n gallu rhagweld digwyddiadau sy'n ymwneud ag elfennau o arferion dyddiol a defnyddio'r termau 'cyn' ac 'ar ôl'.	Rwy'n gallu defnyddio'r cysyniad o amser o ran fy ngweithgareddau dyddiol ac wythnosol a thymhorau'r flwyddyn.	Rwy'n gallu darllen a defnyddio clociau analog a digidol.	Rwy'n gallu dehongli ffracsïynau o eiliadau yn briodol.	
		Rwy'n gallu defnyddio'r cysyniad sylfaenol o amser yn nhermau fy ngweithgareddau dyddiol.	Rwy'n gallu defnyddio unedau safonol o amser i ddarllen amserau 'o'r gloch', 'hanner awr wedi', 'chwarter wedi' a 'chwarter i' ar glochiau analog a chlociau digidol 12 awr.	Rwy'n gallu defnyddio a dehongli calendrau, amserlenni a rhaglenni i gynllunio digwyddiadau a gweithgareddau, a gwneud cyfrifiadau fel rhan o'r daith gynllunio.		
		Rwy'n gallu dangos ymdeimlad sy'n datblygu o ran pa mor hir mae tasgau a digwyddiadau bob dydd yn eu cymryd.		Rwy'n gallu cwblhau gweithgareddau ymarferol sy'n cynnwys digwyddiadau a amserir, ac esbonio pa uned o amser yw'r mwyaf priodol.		
				Rwy'n gallu amseru digwyddiadau mewn munudau ac eiliadau, a threfnu'r canlyniadau.		
				Rwy'n gallu amcangyfrif pa mor hir mae taith yn ei chymryd.	Rwy'n gallu defnyddio amserlenni a chylchfaoedd amser i gyfrifo amser teithio.	
		Rwy'n gallu mesur a chofnodi tymereddau sy'n cynnwys darlenniadau positif a negatif.	Rwy'n gallu trosi tymereddau rhwng graddfeydd tymheredd priodol.			

Fframwaith Rhifedd

Llinyn	Efen	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Mae dysgu am geometreg yn ein helpu i ddeall siapiau, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintoli yn y byd go iawn	Siâp a gofod	Rwy'n gallu trafod priodweddau siapiau rwy'n eu defnyddio yn fy nysgu pob dydd.	Rwy'n gallu trafod priodweddau siapiau dau ddimensiwn a thri dimensiwn rwy'n eu defnyddio yn fy nysgu pob dydd.	Rwy'n gallu adnabod mai perimedr yw'r pellter o gwmpas siâp.	Rwy'n gallu dod o hyd i gylchedd cylchoedd gan ddefnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am π .	Rwy'n gallu cymhwyso newid cyfrannol i ddyluniadau dau ddimensiwn.
				Rwy'n gallu mesur a chyfrifo perimedr.	Rwy'n gallu cyfrifo arwynebedd siapiau dau ddimensiwn syml a chyfansawdd, gan gynnwys cylchoedd.	
				Rwy'n gallu dod o hyd i arwynebedd drwy gyfrif sgwariau, gan ddatblygu i gyfrifo arwynebedd sgwariau a phetryalau drwy ddefnyddio fformiwlâu.	Rwy'n gallu cymhwyso'r fformiwlâu ar gyfer cyfaint prismau syml.	
				Rwy'n gallu defnyddio iaith fathemategol i ddisgrifio siapiau dau ddimensiwn a thri dimensiwn yn gywir.		
				Rwy'n gallu dod o hyd i gyfeintiau drwy gyfrif a dulliau ymarferol eraill.		
	Safle	Rwy'n gallu archwilio symudiadau a chyfeiriadau.	Rwy'n gallu defnyddio iaith safle.	Rwy'n gallu defnyddio cyfeirnodau grid i nodi lleoliad.		
		Rwy'n gallu disgrifio safle.	Rwy'n gallu defnyddio'r pedwar pwynt cwmpawd i ddisgrifio cyfeiriadau.	Rwy'n gallu defnyddio cyfesurynnau i ddod o hyd i safle.		
	Ongl		Rwy'n gallu adnabod hanner a chwarter troeon, clocwedd a gwrthglocwedd.	Rwy'n gallu defnyddio ongl fel mesur cylchdro.	Rwy'n gallu mesur a lluniadu onglau.	Rwy'n gallu mesur a lluniadu onglau.
					Rwy'n gallu cymhwyso dealltwriaeth o gyfeiriannau a graddfa i ddehongli mapiau a chynlluniau, ac i greu cynlluniau a lluniadau wrth raddfa.	

Fframwaith Rhifedd

Llinyn	Efen	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5
Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu i wneud casgliadau a phenderfyniadau ar sail gwybodaeth	Casglu data	Rwyf wedi casglu data sydd yn fy amgylchedd.	Rwy'n gallu casglu gwybodaeth drwy bleidleisio neu drefnu.	Rwy'n gallu casglu data perthnasol i ateb cwestiynau a ofynnwyd.	Rwy'n gallu casglu fy nata fy hun ar gyfer arolwg, e.e. <i>drwy lunio holiadur</i> . Rwy'n gallu cynllunio sut i gasglu data er mwyn profi rhagdybiaeth syml. Rwy'n gallu casglu data meintiol ac ansoddol.	Rwy'n gallu casglu data mewn ffordd addas yn unol â'm rhagdybiaeth.
	Cynrychioli data	Rwy'n gallu didoli a chyfateb setiau o wrthrychau neu luniau drwy adnabod yr hyn sy'n debyg ac rwy'n gallu cyfleu fy newisiadau.	Rwy'n gallu didoli a dosbarthu gwrthrychau gan ddefnyddio mwy nag un maen prawf.	Rwy'n gallu dewis a llunio siartiau, diagramau a graffiau priodol sydd â graddfeydd addas.	Rwy'n gallu dewis a llunio siartiau, diagramau a graffiau priodol sydd â graddfeydd addas.	Rwy'n gallu dewis a llunio siartiau, diagramau a graffiau priodol sydd â graddfeydd addas.
		Rwy'n gallu cyflwyno gwaith ar lafar, yn ddarluniadol ac yn ysgrifenedig, a defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gynrychioli'r data a gasglwyd.	Rwy'n gallu cyflwyno gwaith ar lafar, mewn gwrthrychau, yn ddarluniadol ac yn ysgrifenedig, a defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gynrychioli'r data a gasglwyd sydd â graddfeydd addas gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • rhestrau, siartiau cyfrif, tablau a diagramau • siartiau bar a graffiau llinell bar wedi'u labelu fesul 2, 5 a 10 • pictogramau lle mae un symbol yn cynrychioli mwy nag un uned gan ddefnyddio allwedd • diagramau Venn a Carroll. 	Rwy'n gallu cynrychioli data gan ddefnyddio: <ul style="list-style-type: none"> • rhestrau, siartiau cyfrif, tablau, diagramau a thablau amlder • siartiau bar, siartiau data wedi'u grwpio, graffiau llinell a graffiau trawsnewid • pictogramau lle mae un symbol yn cynrychioli mwy nag un uned gan ddefnyddio allwedd • diagramau Venn a Carroll. 	Rwy'n gallu creu tablau amlder ar gyfer setiau o ddata mewn cyfyngau dosbarth hafal, gan ddewis grwpiau fel y bo'n briodol.	
		Rwy'n gallu defnyddio dulliau gwneud marciau i ddechrau cofnodi casgliadau.			Rwy'n gallu llunio a dehongli graffiau a diagramau (gan gynnwys siartiau cylch) i gynrychioli data arwahanol neu barhaus, gan ddewis graddfa briodol. Rwy'n gallu llunio graffiau i gynrychioli data gan gynnwys diagramau gwasgariad er mwyn ymchwilio i gydberthyniad.	

Fframwaith Rhifedd

Llinyn	Efen	Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3	Cam cynnydd 4	Cam cynnydd 5	
Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu i wneud casgliadau a phenderfyniadau ar sail gwybodaeth	Dehongli data	Rwy'n gallu dehongli gwybodaeth a gyflwynir mewn siartiau a diagramau, a dod i gasgliadau priodol.	Rwy'n gallu echdynnu a dehongli gwybodaeth a gyflwynir mewn siartiau, amserlenni, diagramau a graffiau.	Rwy'n gallu echdynnu a dehongli gwybodaeth o amrywiaeth gynnyddol o ddiagramau, amserlenni a graffiau (gan gynnwys siartiau cylch).	Rwy'n gallu dehongli graffiau sy'n disgrifio sefyllfaoedd go iawn, gan gynnwys y rhai a ddefnyddir yn y cyfryngau, a chan gydnabod y gall rhai graffiau fod yn gamarweiniol.	Rwy'n gallu dehongli graffiau sy'n disgrifio sefyllfaoedd go iawn, gan gynnwys y rhai a ddefnyddir yn y cyfryngau, a chan gydnabod y gall rhai graffiau fod yn gamarweiniol.	
					Rwy'n gallu dehongli gwybodaeth fathemategol; gan ddod i gasgliadau o graffiau, diagramau a data, gan gynnwys trafod cyfyngiadau data.	Rwy'n gallu dehongli gwybodaeth fathemategol; gan ddod i gasgliadau o graffiau, diagramau a data, gan gynnwys trafod cyfyngiadau data.	
			Rwy'n gallu dod i gasgliadau o ddata ac rwy'n cydnabod y gall rhai casgliadau fod yn gamarweiniol neu'n ansicr.	Rwy'n gallu dod i gasgliadau o ddata ac rwy'n cydnabod y gall rhai casgliadau fod yn gamarweiniol neu'n ansicr.	Rwy'n gallu dod i gasgliadau o ddata ac rwy'n cydnabod y gall rhai casgliadau fod yn gamarweiniol neu'n ansicr.	Rwy'n gallu dod i gasgliadau o ddata ac rwy'n cydnabod y gall rhai casgliadau fod yn gamarweiniol neu'n ansicr.	
				Rwy'n gallu defnyddio cymedr i ddehongli set data syml.	Rwy'n gallu defnyddio cymedr, canolrif, modd ac ystod i gymharu data (parhaus ac arwahanol), ac rwy'n gallu dewis y cyfartaledd mwyaf priodol.	Rwy'n gallu archwilio tueddiadau a gwerthoedd eithaf (allanolynnau) ar gyfer setiau data.	
					Rwy'n gallu archwilio canlyniadau yn feirniadol, a dethol a chyfiawnhau dewis o ystadegau, gan gydnabod cyfyngiadau unrhyw ragdybiaethau a'u heffaith ar y casgliadau.		